


Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20

Ymgynghoriad Aml-Asiantaeth
Adroddiad Y Crynodeb Gweithredol



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Mynegai

1) Cyflwyniad: cyd-destun a dull	3
2) Crynodeb gweithredol.....	6

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill.
Os bydd arnoch angen y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith
arall, ffoniwch 01267 234567.**



Ymddiriedolaeth (d) Gwasanaethau Ambylans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust



Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20

Ymgynghoriad Aml-Asiantaeth

1) Cyflwyniad: Cyd-Destun a Dull

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (SEPs) yn ddogfennau pwysig sy'n nodi sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau gyda 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.¹ Bwriad hyn yw sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn triniaeth gyfiawn a theg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi. Mae CCS (SEPs) yn gyffredinol yn cynnwys set o amcanion cydraddoldeb, ynghyd â chynllun gweithredu, sy'n ceisio hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch.

Mae ymgynghori yn rhan annatod o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, ac felly gofynnwyd am farn y cyhoedd i atgyfnerthu a chryfhau'r Cynllun.

Gweithiodd sefydliadau allweddol sy'n gweithredu o fewn Dyfed-Powys ar y cyd i ddarparu ymarferiad ymgynghori ar y cyd.² Defnyddiwyd dulliau cymysg i gael barn a phrofiadau rhanddeiliaid ar draws Dyfed Powys (yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys). Cytunwyd i gynhyrchu un prif arolwg (a chwaer fersiynau) a chynnal digwyddiadau i randdeiliaid lleol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Roedd y dull hwn yn cynyddu cadernid y data a gasglwyd ac yn hwyluso'r gwaith o gymharu canlyniadau.

Mae'r mecanweithiau ymgynghori yn cael eu hystyried yn fwy manwl:

Y Prif Arolwg

Mae arolygon yn ddull ymchwil sefydledig sy'n darparu ehangder a dyfnder barn am gostau rhesymol. Wrth ddatblygu'r arolwg, roedd asiantaethau lleol yn awyddus i gael gwybod a oedd profiadau pobl ynghylch eu gwasanaethau yn wahanol oherwydd eu nodweddion demograffig. Gan gydnabod bod cydraddoldeb yn holl bwysig ar draws rhestr gynhwysfawr o wasanaethau, canolbwyntiodd yr arolwg ar ddeg parth eang - iechyd; addysg; tai; mynediad at gludiant; troseddu a mynediad at gyfiawnder; dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt; mynediad cymdeithasol, hamdden a mynediad i gefn gwlad; mynediad at ofal a chymorth; cyflogaeth a chyd-fynd mewn cymuned.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a yw pobl gyda nodweddion gwahanol yn gyffredinol yn cael profiadau gwell neu waeth o restr benodedig o wasanaethau o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Defnyddiwyd graddfa Likert i sefydlu a yw deuddeg o grwpiau demograffig gwahanol yn cael profiadau 'llawer gwell' 'gwell', 'yr un fath' 'gwaeth' neu 'lawer gwaeth' o wasanaeth penodol.³ Roedd hyn yn ddefnyddiol o ran cofnodi data agweddol (sut mae ymatebwyr yn tybio bod grwpiau eraill yn cael eu trin) a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd (yr hyn yr oedd rhai o grwpiau ethnig penodol, oedran ac ati yn ei feddwl am eu profiadau eu hunain). Mae'r olaf yn bosibl drwy hidlo /dadgyfuno ymatebion.

Rhodddwyd pwyslais ar nodi nodweddion demograffig ymatebwyr (oed, rhyw, ethnigrwydd ac ati) er mwyn i farn gwahanol grwpiau gael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad.

Yn ogystal, cyhoeddwyd y prif arolwg ymgynghori yn y Gymraeg ac yn y Bwyleg, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad demograffig y pedair sir. Roedd taflen gyfarwyddiadau yn cyd-fynd â'r arolwg hefyd, er mwyn cynnig fersiwn hygyrch, hawdd ei ddarllen. Yn olaf, datblygwyd fersiwn i bobl iau hefyd.

1. Y nodweddion hyn yw: Oed; Anabled; Ailbennu Rhyw; Priodas a phartneriaeth sifil; Beichiogrwydd a mamolaeth; Hil; Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred); Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

2. Heddlu Dyfed-Powys; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Bwrdd Iechyd Prifysgol Canolbarth a Gorllewin Cymru; Gwasanaethau Ambiwylans Cymru; Cyngor Sir Caerfyrddin; Cyngor Sir Ceredigion; Cyngor Sir Penfro; Cyngor Sir Powys a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

3. Engraifft o gwestiwn: Mae gennym ddi-ddordeb mewn gwybod os ydych yn meddwl bod pobl sydd â nodweddion gwahanol yn cael profiadau gwahanol o wasanaethau. Gan feddwl am iechyd, a ydych yn ystyried bod pobl yn y grwpiau canlynol yn gyffredinol yn cael profiadau gwell neu waeth, o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol?

Digwyddiadau i randdeiliaid

Er mwyn ymgysylltu'n ystyrlon mewn deialog gydag ystod eang o randdeiliaid wyneb yn wyneb, trefnwyd digwyddiadau rhanddeiliaid ym mhob un o'r pedair sir. Ysgwyddodd awdurdodau lleol y cyfrifoldeb am y digwyddiadau, a buont yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau lleol i gydlynu a chyflwyno sesiynau ymgysylltu â'r CCS (SEP).

Fe wnaeth y sesiynau wneud defnydd o dechnegau cyfranogol megis 'trafod cyflym' - cynnig nifer o bynciau ar gyfer trafodaeth grŵp wedi'i hamseru - a 'gorsafoedd parcio' - lle mae mynychwyr yn cael eu hannog i bostio sylwadau ar hysbysfwrdd. Ystyriwyd pum thema allweddol yn ystod y broses o drafod cyflym: lles (iechyd, hamdden, gofal a chymorth); cyfleoedd (addysg a chyflogaeth); cymunedau cydlynol (troseddau a mynediad at gyfiawnder; cymunedau); dweud eich dweud (dylanwadu ar benderfyniadau) a lle rydym yn byw (trafnidiaeth a thai). Ar gyfer pob thema, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried: yr hyn sy'n gweithio'n dda; beth sydd ddim yn gweithio'n dda a chynlluniau'r dyfodol. Cafodd y canlyniadau eu bwydo i mewn i adroddiad am y digwyddiad i randdeiliaid, a gynhyrchir ar gyfer pob sir.⁴

Cyhoeddusrwydd

Ymgwymerodd yr holl asiantaethau partner â gweithgareddau hyrwyddo, gan roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad drwy gyfrwng datganiadau i'r wasg; lleoli gwybodaeth ar-lein drwy wefannau / pyrrh ymgynghori; negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol; negeseuon e-bost mewnol i staff a /neu ddefnyddio'r fewnrwyd; arddangos 'cardiau post' am y CCS (SEP) mewn llyfrgelloedd, canolfannau gwasanaeth y cwsmer, meddygfeydd a llyfrgelloedd; gwybodaeth i gynghorau tref a chymuned; a thrwy rwydweithiau penodol i bob sefydliad. Mae'r uchod yn rhoi blas o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cael cyhoeddusrwydd eang iawn.

Yn ogystal â'r uchod, defnyddiwyd y sianeli ymgynghori canlynol:

Sir Gaerfyrddin - Hyrwyddo drwy Gydraddoldeb Sir Gaerfyrddin (grŵp ymbarél sy'n cynnwys lluo o grwpiau /sefydliadau cydraddoldeb). Ar ben hynny, ffurfiodd yr arolwg ymgynghori ran o bostiad Medi 2015 at aelodau Panel y Dinasyddion (c. 600) a'r Fforwm 50+ (c. 2400).

Ceredigion - Cyflwynwyd gwybodaeth am yr Ymgynghoriad yng nghyfarfodydd Fforwm Anabledd Ceredigion; Llais Ceredigion dros Gydraddoldeb; Fforwm 50+; Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Chynghrair Gofalwyr Ceredigion

Heddlu Dyfed Powys - Rhannwyd yr ymgynghoriad gydag aelodau Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Hywel Dda - Dosbarthwyd gwybodaeth i Feddygfeydd, Fferyllfeydd ac aelodau Siarad Iechyd/Talking Health

Sir Benfro - Anfonwyd gwybodaeth at aelodau Lleisiau Sir Benfro dros Gydraddoldeb

Powys - codwyd ymwybyddiaeth trwy Anabledd Powys Ymwybyddiaeth; Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod; Fforwm Pobl Hŷn; PAVO; Cartefi Cymru a Gofalwyr Powys.

4. Mae'r adroddiad ar gael gan bob awdurdod lleol wrth ofyn amdano

2) Crynodeb

Mae'r ymarferiad wedi datgelu gwybodaeth benodol a manwl iawn mewn perthynas â phob nodwedd warchoddedig, a phob 'parth'. Cynorthwywyd y gwaith o ddehongli'r data drwy ddefnyddio arolygon a digwyddiadau, sydd wedi cynhyrchu gwybodaeth ategol.

Un elfen newydd, arbennig mewn perthynas â'r ymchwil hwn fu'r ffordd y mae wedi bod yn bosibl cael gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau ynghylch profiadau gwahanol grwpiau, a gallu cymharu hyn yn erbyn realiti'r grwpiau dan sylw yn eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn rhoi'r gallu i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan nodi achosion lle gallai stereoteipiau di-fudd (a gefnogir yn y cyfryngau efallai) gael eu herio'n ddefnyddiol. Enghraifft dda o hyn yw mewn perthynas â thai, lle'r oedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn meddwl bod pobl dduon a rhai o leiafrifoedd ethnig yn cael gwell profiadau, yn wahanol i farn yr ymatebwyr BME eu hunain.

Wrth grynhai'r canlyniadau yn ôl nodwedd warchoddedig, gellir dweud y canlynol:

Mae'n ymddangos mai pobl anabl sy'n cael y profiadau gwaethaf yn gyffredinol ar draws y deg parth, er yn arbennig mewn perthynas â mynediad at drafnidiaeth, mynediad cymdeithasol, hamdden a mynediad i gefn gwlad a chyflogaeth. Ar ben hynny, mae'r canlyniad cyffredinol yn weddol agos at y canlyniad gan bobl anabl eu hunain, sy'n awgrymu dealltwriaeth gyffredinol o'r materion y gallai pobl anabl fod yn eu hwynebu.

Ystyrir yn gyffredinol nad yw gwrywod, benywod, pobl sengl, rhai mewn perthynas a'r rhai sydd â chrefydd neu gred yn cael profiadau sydd ddim yn well nac yn waeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Nid yw'n ymddangos fod unrhyw grŵp yn cael profiadau cyffredinol gwell, er yr ystyrir bod pobl iau yn cael gwell profiadau addysg, ac ystyrir bod menywod beichiog neu'r rhai sydd newydd roi genedigaeth yn cael gwell profiadau o ran iechyd, tai, a mynediad at ofal a chymorth.

Gellir crynhai'r canlynol mewn perthynas â'r deg parth:

Iechyd: pobl hŷn, trawsrywiol a phobl anabl yw'r grwpiau yr ystyrir bod ganddynt y profiadau gwaethaf. Mae pobl LHD yn dweud eu bod yn cael profiadau gwaeth na chanfyddiadau'r cyhoedd. Yn arwyddocaol, roedd yr ymatebwyr gyda chyfrifoldebau gofalu yn meddwl bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth nag oedd y canlyniadau cyffredinol yn ei awgrymu.

Addysg: ystyrir mai pobl anabl, pobl hŷn, trawsrywiol, pobl LHD a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael y profiadau gwaethaf. Wrth ystyried realiti byw, dywedodd pobl LHD a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig eu bod yn cael profiadau sylweddol waeth na chanfyddiad ymatebwyr eraill. Mae sylwadau yn awgrymu bod yna broblemau o ran rhagfarn, a rhwystrau mynediad.

Tai: mae canfyddiad bod pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r rheiny sy'n feichiog (neu gyda phlant ifanc) yn cael gwell profiadau. Ystyrir mai pobl iau a sengl sy'n cael y profiadau gwaethaf. Wrth ystyried profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r rhai ar gyfer pobl anabl ac LHD yn sylweddol waeth, gan awgrymu profiadau gwael ar gyfer tai ar gyfer y ddau grŵp hyn.

Mynediad at drafnidiaeth: credir bod pobl anabl (yn benodol) a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, ond ystyrir bod grwpiau eraill yn cael profiadau sydd ddim gwell na gwaeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Mae gofalywyr yn credu bod pobl hŷn, a phobl anabl yn cael profiadau gwaeth nag ymatebwyr yn gyffredinol.

Troseddu a mynediad at gyfiawnder: credir bod nifer o'r grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig yn cael profiadau gwaeth; yn arbennig, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl drawsrywiol, iau. Yn nhermau profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r canlyniadau ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl LHD a phobl drawsrywiol i gyd yn waeth na chanfyddiadau ymatebwyr a gymerwyd yn gyffredinol.

Dylanwadu ar benderfyniadau: ystyrir bod pobl iau, anabl, trawsrywiol a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael profiadau gwaeth o ran dylanwadu ar benderfyniadau. O ystyried profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r sefyllfa ar gyfer pobl anabl, LHD, a phobl drawsrywiol, yn waeth na chanfyddiad yr ymatebwyr yn gyffredinol.

Mynediad cymdeithasol, hamdden a mynediad i gefn gwlad: Ystyrir bod pobl anabl ac, i raddau llai, pobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, tra mae'r canlyniad ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau yn dangos ychydig iawn o amrywiad o'r sefyllfa ar gyfer y boblogaeth gyfan. Roedd y thema amlycaf yn ymwneud â materion hygyrchedd i bobl anabl.

Mynediad at ofal a chymorth: Ystyrir bod pobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, gyda menywod beichiog neu'r rhai sydd â phlant ifanc yn cael gwell profiadau. Dangosodd y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain amrywiad mewn rhai achosion, gyda phrofiadau llawer gwaeth yn cael eu hadrodd gan bobl anabl, LHD a thrawsrywiol. Roedd gofawyr yn llawer mwy tebygol o feddwl bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth.

Cyflogaeth: mae'r canlyniadau yn dangos y gallai nifer o grwpiau gael profiadau gwaeth - gyda phobl anabl, pobl hŷn, a'r rhai beichiog / gyda phlant bach yn dioddef waethaf. Dim ond dynion a phobl sengl a ystyrir fel rhai sy'n cael profiadau nad ydynt yn ddim gwell na gwaeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd (mae'r lleill i gyd yn waeth). O ystyried y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, LHD, pobl iau, menywod a rhai trawsrywiol i gyd yn cael profiadau gwaeth na chanfyddiad yr ymatebwyr yn gyffredinol.

Cyd-fynd yn y gymuned: Ystyrir bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, drawsrywiol a LHD i gyd yn cael profiadau gwaeth. Mae hyn hefyd yn wir am y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau hyn eu hunain. Roedd themâu allweddol yn cynnwys: amharodrwydd i gymysgu ac ofni gwahaniaeth; problemau mynediad; ac anawsterau cyfathrebu sy'n codi o iaith (gan gynnwys hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a BSL).

The full summary report (technical paper) is available via clicking on the following link